



Cofnodion Cyfarfod y **Cyd-bwyllgor Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe**

O bell drwy Microsoft Teams

Dydd Iau, 15 Hydref 2020 am 3.00 pm

Yn Bresennol:

Joanne Abbott-Davies, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Mark Brace, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd
Amanda Carr, Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe
Jan Curtice, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Martyn Evans, Cyfoeth Naturiol Cymru
Adam Hill, Cyngor Abertawe
Andrea Lewis, Cyngor Abertawe
Joanna Maal, Heddlu De Cymru
Christopher Owen, Llywodraeth Cymru
Roger Thomas, Mid & West Wales Fire & Rescue Service
Nuria Zolle, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Ymddiheuriadau am absenoldeb

Sian Harrop-Griffiths, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Rob Stewart, Cyngor Abertawe

Hefyd yn bresennol:

Leanne Ahern, Cyngor Abertawe
Sian Denty, Cyngor Abertawe
Helena Herklots, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Steve King, Cyngor Abertawe
Allison Lowe, Cyngor Abertawe
Phil McDonald, Fforwm Amgylcheddol Abertawe
David McKinney, Comisiynydd Pobl Hŷn
Anthony Richards, Cyngor Abertawe

1 Ethol Cadeirydd ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2020-2021.

Penderfynwyd y dylid penodi'r Cynghorydd Rob Stewart, Arweinydd Cyngor Abertawe a'r Cynghorydd Andrea Lewis yn Gyd-Gadeiryddion ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2020-2021.

Bu'r Cynghorydd A S Lewis (Cyd-gadeirydd) yn llywyddu

2 Ethol Is-gadeirydd ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2020-2021.

Penderfynwyd y dylid penodi Roger Thomas, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn Is-gadeirydd ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2020-2021.

3 Croeso.

Croesawodd y Cynghorydd Andrea Lewis bawb i'r cyfarfod ac esboniodd ei bod wedi cymryd cyfrifoldeb arweiniol dros Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cyngor Abertawe.

4 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Datganodd Phil McDonnell gysylltiad personol â Chofnod 11 "Diweddariad Cyllid Cyfoeth Naturiol Cymru".

5 Cofnodion.

Penderfynwyd cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Cyd-bwyllgor Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe a gynhaliwyd ar 13 Awst 2020 fel cofnod cywir.

6 Y Diweddaraf ar Gamau Gweithredu o'r Cyfarfod Blaenorol.

Yn ogystal â'r sylwadau a amlinellwyd yn y log gweithredu, adroddodd Adam Hill nad oedd unrhyw awydd ar hyn o bryd i ymestyn yr ystod oedran ar gyfer ffrwd waith "Y Blynyddoedd Cynnar" i gynnwys plant hyd at 7 oed gan y teimlir bod yr oedran yn addas at y diben ar hyn o bryd, ond byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno pe bai'r ystod oedran yn cael ei hymestyn.

Cytunwyd y dylid nodi'r diweddariad i'r camau gweithredu.

7 Cwestiynau gan y cyhoedd.

Ni chafwyd cwestiynau gan y cyhoedd.

8 Y Comisiynydd Pobl Hyn. (Ar lafar)

Ymunodd Helena Herklots, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru a David McKinney, Arweinydd Heneiddio'n Dda â'r cyfarfod er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor am yr adroddiad "Gadael neb ar ôl", a sut yr oedd yn cefnogi ymrwymiad Abertawe i ddod yn Ddinas sy'n Ystyriol o Oed.

Dechreuodd y Comisiynydd drwy gydnabod yr amseroedd anarferol a gafwyd a diolchodd i'r holl bartneriaid am y gwaith a wnaed yn ystod pandemig COVID-19.

Esboniodd fod trafodaethau wedi dechrau tua 6 mis yn ôl mewn perthynas ag Abertawe a datblygiad awdurdodau lleol eraill Cymru fel Dinasoedd sy'n Ystyriol o Oed. Aeth ymlaen i ddweud, er bod rhwydwaith o gymunedau sy'n ystyriol o oed ledled y byd, nad oedd unrhyw leoedd yng Nghymru ar hyn o bryd a oedd yn aelodau o'r gymuned ryngwladol honno, felly hoffai ddatblygu'r darn hwn o waith yn ogystal â Chymuned Arfer yng Nghymru a fyddai'n cysylltu â'r rhwydwaith rhyngwladol.

Dywedodd y Comisiynydd ei bod yn gyfnod anodd iawn i bobl hŷn aros yn iach ac yn gysylltiedig yn eu cymunedau lleol. Roedd wedi cynnal nifer o sesiynau ymgysylltu â'r rhwydwaith rhithwir a gynhowyd yn yr adroddiad "Gadael neb ar ôl". Aeth ymlaen i ddweud bod cyswllt ag eraill mewn cymunedau lleol wedi bod yn bwysig iawn i bobl hŷn. Fodd bynnag, roedd angen i ni sicrhau bod ein cymunedau'n ystyriol o oed ac nid oedd unrhyw rwystrau i bobl hŷn gymryd rhan mewn gweithgareddau dyddiol. Amlinellodd rai materion ymarferol a godwyd a oedd yn cynnwys:

- Meinciau/seddau digonol ar gael;
- Palmentydd diogel;
- Goleuadau stryd;
- Sicrhau bod ein siopau a'n busnesau'n ymwybodol o anghenion penodol e.e. dementia, etc.

Dywedodd y Comisiynydd y gellid eithrio rhai pobl hŷn yn anfwriadol, ac awgrymodd y dylid cynnal archwiliadau yn ein cymunedau i sicrhau ein bod yn ystyriol o oed ac yn galluogi pobl hŷn i gymryd rhan ac aros yn rhan o bethau.

Cydnabu fod Abertawe wedi gwneud cynnydd mawr tuag at gael statws Ystyriol o Oed drwy lofnodi statws Dulyn yn 2014. Yn ogystal, roedd ein cynllun Heneiddio'n Dda hefyd wedi bod yn gadarnhaol iawn. Felly, teimlai fod Abertawe mewn sefyllfa dda i fod yn un o brif gymunedau'r maes hwn.

Gofynnodd y Comisiynydd i Abertawe gytuno i gymryd rhan yng Nghymuned Arfer Cymru er mwyn rhannu dysgu. Cynigiodd gymorth hefyd i gyflwyno cais i Sefydliad Iechyd y Byd er mwyn cael ei gydnabod fel Dinas Sy'n Ystyriol o Oed.

Tynnwyd sylw at y ffaith y byddai'r pwnc hwn yn cyd-fynd ag eitem ddiweddarach ar yr agenda mewn perthynas â Dinas er Lles.

Diolchodd y Cynghorydd Lewis i'r Comisiynydd Pobl Hŷn am ymuno â'r cyfarfod.

Cytunwyd bod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe yn croesawu'r cynnig o gymorth i gyflwyno cais i Sefydliad Iechyd y Byd i ddod yn Ddinas sy'n Ystyriol o Oed a chymryd rhan yn y Gymuned Arfer.

9 **Asesiad Effaith Cymunedol.**

Cyflwynodd Steve King, Arweinydd Tîm Gwybodaeth, Ymchwil a Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol Cyngor Abertawe adroddiad i nodi cwestiynau'r arolwg a ddosbarthwyd yn dilyn gweithdy cynllunio adfer COVID-19 y BGC (Awst 2020), a dosbarthu dadansoddiad drafft cychwynol 'PESTLE' o brif effeithiau cymunedol COVID-19.

Amlinellodd y cefndir gan gynnwys y gwaith a wnaed gan gynnwys y gweithdy adfer a gynhaliwyd er mwyn rhannu profiadau partner o'r pandemig a dyfeisio ymateb i adferiad.

Roedd Arweinydd y Tîm Gwybodaeth, Ymchwil a Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol yn cydnabod, er nad oedd hwn yn asesiad llawn o'r effaith ar y gymuned o'i gymharu â rhai eraill a wnaed yng Nghymru, ei fod yn amlinellu pa waith a wnaed o ran tynnu'r themâu allweddol a'r ffrydiau perthnasol.

Awgrymwyd bod y ffrydiau gwaith yn ystyried y 3 amcan strategol canlynol i ganolbwyntio arnynt er mwyn datblygu cynllun gweithredu gwerth ychwanegol amlasiantaethol i feithrin mwy o wydnwch dros y 12 mis nesaf:

1. Dinas er Lles a Bywyd Gwyllt;
2. Agenda Gwyrdd/Newid yn yr Hinsawdd;
3. Llinellau Sirol, Camddefnyddio Sylweddau, Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

Teimlwyd bod y cyngor wedi gwneud cryn dipyn o waith wrth lunio cynllun gweithredu Argyfwng Hinsawdd. Rhan o'r broses honno fyddai gofyn i'r holl bartneriaid ymrwymo i siarter newid yn yr hinsawdd a llunio eu cynlluniau gweithredu eu hunain ar gyfer eu sefydliadau eu hunain gyda chydweithrediad ar draws sefydliadau e.e. cyd-gaffael cerbydau gwyrdd.

Roedd argyfwng hinsawdd wedi'i ddatgan cyn COVID-19, ond roedd wedi rhoi sylw i bethau gan gynnwys yr anghydraddoldebau iechyd. Nid gwneud mwy o'r un peth yw diben yr ymateb economaidd, a dylai'r Pwyllgor ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd eisoes.

Roedd angen myfyrio ac edrych ymlaen ar yr un pryd a bod yn realistig ynghylch amserlenni tra'n cefnogi pobl i fod yn wydn a rheoli disgwyliadau wrth gydnabod bod y dirwedd wedi newid.

Byddai angen hyblygrwydd o ran sut rydym yn ymateb tra bod ystyriaeth i oddefgarwch, cydweithredu a chanfyddiad y cyhoedd hefyd yn allweddol. Fodd bynnag, pwysleisiwyd bod y BGC ar y cyd â sefydliadau eraill yn parhau i gydweithio ar draws Bwrdeistrefi Sirol eraill, ac yn genedlaethol hefyd, yn enwedig mewn perthynas â Llinellau Sirol.

Cytunwyd y dylid:

- 1) Nodi'r adroddiad;
- 2) Y Bwrdd i ystyried dadansoddiad drafft PESTLE o effaith y gymuned a nodi unrhyw fylchau neu faes posib ar gyfer gwella; o ran materion, eu heffeithiau allweddol, ffynonellau tystiolaeth a goblygiadau polisi;
- 3) Mae'r Bwrdd yn defnyddio'r dadansoddiad hwn i helpu i lywio ei raglen waith yn y flwyddyn i ddod; a helpu i baratoi ar gyfer yr Asesiad Lles Lleol nesaf (2022).

10 Asesiad Lles Lleol.

Cyflwynodd Steve King, Arweinydd Tîm Gwybodaeth, Ymchwil a Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol Cyngor Abertawe adroddiad i nodi materion a chynigion amlinellol cychwynnol ar gyfer cynnal Asesiad Lles Lleol 2022.

Roedd disgwyl am ganllawiau gan Lywodraeth Cymru o hyd, ond roedd yr adroddiad yn amlinellu ac yn crynhoi'r gwaith a wnaed ar gyfer yr asesiad lles blaenorol a sut y cafodd ei drefnu o ran strwythur.

Byddai angen i ystyriaeth o'r asesiad poblogaeth o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles gyd-fynd â gofynion yr Asesiad Lles Lleol.

Gan nad oedd yr un nifer o ddadansoddwyr ar gael yng Nghyngor Abertawe na phan gynhaliwyd yr asesiad diwethaf yn 2017, byddai angen cymorth ar ffurf dadansoddiadau/ymchwilwyr/arbenigwyr gan y partneriaid i fwydo i mewn i hyn.

Cafwyd trafodaeth hir gyda'r sylwadau canlynol:

- Rhagweld mai ychydig iawn fyddai wedi newid ers cynnal yr Asesiad Lles diwethaf, ac eithrio effaith COVID-19. Dylid trosi adnoddau yn gamau ystyrlon.
- Byddai angen dull gwirioneddol gydgysylltiedig a symlach o asesu'r boblogaeth a'r asesiad Lles Lleol gan y byddai gofyn i sefydliadau gyfrannu at y ddau.
- Ffactorau newydd i'w hystyried fyddai: COVID, gadael yr UE, agenda newid yn yr hinsawdd, darlun ehangach o'r economi, diweithdra, Busnesau Bach a Chanolig.
- Byddai angen cyfeirio'n statudol at ddatganiadau ardal (a gyhoeddwyd ym mis Ebrill).
- Adnewyddu yn hytrach nag ail-gychwyn, gan ddefnyddio data meincnodi cyfredol.
- Dylid ystyried cynnwys y cyhoedd a chydweithredu ehangach wrth baratoi'r Asesiad Lles Lleol a'i gynnwys wrth ddatblygu'r Cynllun Lles.
- Defnyddio dulliau ymgynghori partneriaid presennol e.e. grwpiau ffocws etc. Byddai angen i bob partner arwain yn ei sefydliad ei hun.
- Nodwyd bod y Strategaeth Isadeiledd Gwyrdd yn deillio o fuddion y BGC.
- Rhaid ystyried bod camau gweithredu o fudd i'r ddwy ochr ar sail amlasiantaethol a chanolbwyntio ar rywbeth na fyddai'r BGC wedi bod yn ei wneud y tu allan i'r BGC.

Cytunwyd y dylid:

- 1) Nodi'r adroddiad.
- 2) Y Bwrdd yn ystyried sut y gellid cynnal yr asesiad yn Abertawe, yng ngoleuni materion a godwyd yn yr adroddiad hwn a'r cyngor a ragwelir yn fuan gan Lywodraeth Cymru.

11 Y Diweddaraŷ am Gyllid Cyfoeth Naturiol Cymru. (Ar Lafar)

Rhoddodd Adam Hill yr wybodaeth ddiweddaraŷ i'r pwyllgor am y £2,000 a oedd ar gael gan Cyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas â newidiadau yn yr hinsawdd a newidiadau ehangach.

Adroddodd fod y 4 partner statudol yn ymgymryd â phroses ymgeisio ac yn ei hadolygu. Roedd yn falch o adrodd bod y £25,000 llawn bellach wedi'i neilltuo ar gyfer y flwyddyn ariannol hyd at fis Mawrth 2021 fel a ganlyn:

- Toriadau - £8,000;
- Prosiect natur, hamdden a gweithredu - £7.5k;
- Fforwm Amgylcheddol Abertawe - £8k;
- Tasglu Gweithio gyda Natur yn cefnogi Prosiect Cors Crymlyn Eastside (i wella ymgysylltiad cymunedol) - £1.5.

Cytunwyd y dylai'r dyraniadau uchod gael eu cymeradwyo gan Gyd-bwyllgor Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe.

12 Y Diweddaraŷ am y Comisiwn Gwirionedd Tlodi. (Ar Lafar)

Ymunodd Anthony Richards, Rheolwr Datblygu'r Strategaeth Tlodi a'i Atal, a'r Swyddog Datblygu Strategaeth Tlodi a'i Atal, Sian Denty, â'r cyfarfod i roi'r wybodaeth ddiweddaraŷ i'r pwyllgor am y sefyllfa bresennol mewn perthynas â'r Comisiwn Gwirionedd Tlodi.

Fe'u hatgoffwyd gan Reolwr Datblygu'r Strategaeth Tlodi a'i Atal o gefndir a rôl y Comisiwn a dywedodd wrthynt fod y Tîm Hwyluso bellach wedi'i recriwtio ond bod cynnydd wedi'i rwystro oherwydd pandemig COVID-19.

Anogodd aelodau'r BGC i fynychu'r digwyddiad rhithwir y cawsant wahoddiad iddo ar 23 Hydref 2020. Byddai cyfle i sefydliadau yn Abertawe glywed gan Gomisiwn Gwirionedd Tlodi Leeds ynghylch cymorth yn y DU, a byddai gwybodaeth am rôl y Comisiynydd hefyd ar gael. Dosbarthwyd gwybodaeth ychwanegol, gan gynnwys taflennu, i bartneriaid yn flaenorol er mwyn iddynt eu hanfon at y rheini yr oedd ganddynt diddordeb mewn dod yn Gomisiynydd Dinesig a Busnes. Dylai darpar ymgeiswyr gysylltu â'r Tîm Hwyluso.

Yn ogystal, gan fod angen elfen o gyllid o hyd ar gyfer y Comisiwn Gwirionedd Tlodi, gofynnwyd i'r partneriaid ystyried defnyddio cyllid o lwfans Cyfoeth Naturiol Cymru y flwyddyn nesaf neu ffynhonnell arall tuag at ariannu'r Comisiwn Gwirionedd Tlodi.

Cytunwyd y dylid cofnodi'r diweddariad.

13 Partneriaeth Ymchwil Atal y DU - galwad am geisiadau. (Ar lafar)

Atgoffodd Adam Hill bartneriaid fod gwybodaeth wedi'i dosbarthu iddynt mewn perthynas â Phartneriaeth Ymchwil Atal y DU. Os oedd unrhyw un yn bwriadu

Cofnodion cyfarfod y Cyd-bwyllgor Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe (Dydd Iau, 15 Hydref 2020) Parhad

cyflwyno cais, gallent roi gwybod i Leanne Ahern, Swyddog Cymorth y BGC, ond cyfrifoldeb y sefydliad perthnasol fyddai cwblhau'r cais a'i gyflwyno.

14 Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

Atgoffodd Adam Hill bartneriaid i anfon unrhyw ymatebion mewn perthynas â'r rhwystrau at weithredu Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn llwyddiannus at Leanne Ahern, Swyddog Cymorth y BGC gan y byddai'r ymgynghoriad yn dod i ben ar 27 Tachwedd 2020. Byddai ymateb yn cael ei anfon ar y cyd ar ran Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe.

15 Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe - Ffrydiau Gwaith.

Atgoffodd Adam Hill Arweinwyr Ffrydiau Gwaith i sicrhau bod y 4 grŵp Ffrwd Waith yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.32 pm

Cadeirydd